



Eich cyf/Your ref at P-05-848
Ein cyf/Our ref at KW/02686/18

David John Rowlands AM
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

7 Rhagfyr 2018

Annwyl David

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Tachwedd ynglŷn â'r ddeiseb 'P-05-848 Rhowch gyfle i Fyfyrrwyr Cymru ddewis yr opsiwn astudio gorau ar eu cyfer hwy', a ystyriwyd gan y Pwyllgor ar 13 Tachwedd.

Croesawaf farn y Pwyllgor ar y mater hwn ac rwyf wedi ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd.

Mae fy swyddogion wedi gohebu â'r deisebydd Mrs Ellis a'i chynrychiolwyr gwleidyddol nifer o weithiau. Mae fy swyddogion eisoes wedi egluro'r sefyllfa o ran cymorth i fyfyrwyr sydd ar gael i'w merch ac unrhyw fyfyrwyr eraill sy'n dilyn gradd dramor. Ymddengys na fyddai cwrdd â Mrs Ellis o fawr o fudd iddi hi neu ei merch, yn enwedig gan fod Georgia eisoes wedi dechrau ei gradd yn America.

Eglurais yn fy llythyr dyddiedig 8 Hydref, fod y pecyn newydd o gymorth o'r flwyddyn academaidd 2018/19 yn seiliedig ar argymhellion sy'n deillio o adolygiad annibynnol Diamond o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Gwnaeth y panel ystyried nifer o fodelau gwahanol ar gyfer y pecyn cymorth decaf. Roedd angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch blaenoriaethau ariannu. Oherwydd cyllideb gyfyngedig, mae'r pecyn yn targedu rhai sydd fwyaf mewn angen. Yn anffodus, nid yw'n bosibl ymestyn y pecyn i'r rhai sy'n astudio gradd tu allan i'r DU.

Ar hyn o bryd ceir nifer o grantiau a chyllid, yn ogystal ag ysgoloriaethau a bwrsariaethau, sy'n cefnogi astudiaethau tramor (o unrhyw hyd).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yr wyf yn ymrwymedig o hyd i ddarparu cefnogaeth sy'n galluogi mwy o fyfyrwyr i elwa ar gyfnodau o astudio dramor. Ar 20 Tachwedd, gwneuthum ddatganiad yn y Senedd ar Symudedd Myfyrwyr Rhyngwladol. Yn ystod y datganiad, cyhoeddais gynllun peilot bydd yn cynnig cymysgedd o gyfleoedd i fyfyrwyr o Gymru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, yn amrywio o ddwy hyd wyth wythnos. Dangosodd ein hastudiaeth gwmpasu mai cyfleoedd fel hyn fyddai'n denu'r mwyafrif o fyfyrwyr. Gellir gweld y datganiad yma: <http://record.assembly.wales/Plenary/5365#A46915> <<http://record.assembly.wales/Plenary/5365>>. Yr ydym yn buddsoddi £1.3 miliwn yn y cynllun peilot hwn dros y tair blynedd nesaf.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education